

**QWB31.2b - Cofnodion wedi'u cadarnhau cyfarfod
Bwrdd Cymwysterau Cymru a gynhaliwyd ar 14 Mai 2020**

Mynychwyr:

David B Jones (DBJ) - Cadeirydd, Philip Blaker (PB), Isabel Nisbet (IN), Angela Maguire-Lewis (AML), Ellen Donovan (ED), David Jones (DJ), Caroline Burt (CB), Robert Lloyd Griffiths (RLG), Claire Morgan (CM), Arun Midha (AC), Jayne Woods (JW), Anne Marie Duffy (AMD).

Yn bresennol hefyd:

Jo Richards (JR), Alison Standfast (AS), Cassy Taylor (CT), Emyr George (EG) eitem 2, Judith Askew (JA) - Llywodraeth Cymru, Gareth Downey (GD) - Eitem QWB27.10 ar yr Agenda yn unig; June Jenkins (JJ) - Eitem QWB27.11 ar yr Agenda yn unig; Heidi Brown (HB) Eitem QWB27.11 ar yr Agenda yn unig; Lisa Evans (LE) - Swyddog y Cofnodion.

Ymddiheuriadau:

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

5. Croeso, Ymddiheuriadau, Datganiadau o Fuddiant, Papurau i'w Nodi

- 5.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
- 5.2. Datganiadau o fuddiant.
 - 5.2.1. Nododd y Bwrdd fod gan AC rôl fel llywodraethwr ysgol mewn ysgol uwchradd yng Nghymru a'i fod yn gadeirydd ei bwyllgor cwricwlwm.
 - 5.2.2. Nododd y Bwrdd fod AML wedi datgan buddiant mewn perthynas â'r ffaith fod ei mab yn sefyll ei arholiadau TGAU y flwyddyn nesaf.
 - 5.2.3. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan aelodau'r Bwrdd unrhyw faterion yr oeddent am eu trafod mewn perthynas â'r papurau gwybodaeth a ddarparwyd:

Codwyd pwynt mewn perthynas ag eitem QWB27.17 ar yr agenda yn argymhell y dylid paratoi llinellau mewn perthynas ag ysgolion yn agor.

6. Cofnodion y Bwrdd a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2020

- 6.1. QWB26.3.3.8 Trafododd aelodau'r bwrdd gofnod 3.8 yn ymwneud â geiriad Cymwys ar gyfer y Dyfodol yn "ei gwneud yn ofynnol" bod cymwysterau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg a sut y byddai hyn yn cael ei gymhwyso mewn gwahanol senarios. Atgoffodd PB y Bwrdd mai'r dull a gytunwyd oedd bod yn fwy eglur yn ein gofynion a'n gweithredoedd ac y byddai eithriadau yn cael eu cytuno dim ond lle byddai angen hynny. Felly roedd yn ofyniad nad oedd yn rhwystro eithriadau.

Gofynnodd y Bwrdd am osod y gofyniad yn ei gyd-destun a chytunodd y byddai'n ddefnyddiol cynnwys cyfeiriad at y prif nodau o ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr (pob un ohonynt).

Ni chodwyd unrhyw faterion pellach o ran cywirdeb nac eglurhad.

6.2 Diweddariad ynghylch y Camau Gweithredu

Nododd y Bwrdd y diweddariad o ran y Camau Gweithredu. Roedd yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.

Cam Gweithredu 01: DBJ, PB ac AS i ystyried y geiriad mewn perthynas â QWB26.3.8, i'w rannu gyda'r Bwrdd wedyn.

Crynodeb

i. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion ar gyfer y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2020.

ii. Nododd y Bwrdd y diweddariad o ran y Camau Gweithredu.

7. Cadarnhau penderfyniadau'r cyn bwyllgor

7.1 Diolchodd DBJ i'r swyddogion am y wybodaeth a anfonwyd at aelodau'r Bwrdd.

7.2 Diolchodd AS i aelodau'r Bwrdd am eu hatebion. Nododd y Bwrdd y byddai ymateb ysgrifenedig i'r sylwadau unigol yn cael ei ddarparu ar ôl y cyfarfod. Byddai'r holl sylwadau drafftio hefyd yn cael eu hystyried a'u hadlewyrchu yn fersiynau terfynol y dogfennau i'w cyhoeddi.

7.3 Adroddiad Blynyddol Cynllun y Gymraeg 2019-20
Nododd y Bwrdd fod 11 aelod yn fodlon cymeradwyo ei gyhoeddi gan roi'r hawl i'r Prif Weithredwr lofnodi'r adroddiad hwn. Cadarnhaodd pob un o'r 12 gytundeb yn y cyfarfod.

7.4 Nodwyd y pwynt a godwyd mewn perthynas ag amserlenni i gyflawni'r cam gweithredu ynghylch dewis iaith a chadarnhaodd AS fod cynllun y cytunwyd arno bellach ar waith a fyddai'n cael ei fonitro trwy'r cynllun gweithredol.

7.5 Adroddiad Cynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol Blynyddol 2019-20
Nododd y Bwrdd fod 11 o 12 aelod yn fodlon cymeradwyo cyhoeddi'r adroddiad hwn.

7.6 Nododd AS fod pwynt cyson wedi'i godi yn ymatebion aelodau'r Bwrdd yn ymwneud â'r geiriad a ddefnyddiwyd am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Cadarnhaodd AS y byddai'r geiriad hwn yn cael ei aralleirio. Nododd AS nad oedd tystiolaeth o unrhyw broblem gynhenid neu sylfaenol, ond byddai'r sefydliad yn parhau i fonitro ac adolygu'r agwedd hon.

7.7 Nododd y Bwrdd fod PB ac AS wedi cyfarfod â Chwarae Teg, sefydliad sy'n ymwneud â hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y gweithle. Gofynnir i Chwarae Teg weithio gyda'r sefydliad dros y flwyddyn i ddod. Byddai hyn yn cynnwys adolygiad, hyfforddiant staff a chefnogaeth. Roedd y Bwrdd yn falch o nodi'r datblygiad hwn.

7.8 Contractau uwchben trothwy'r UE

Nododd y Bwrdd fod pob aelod yn fodlon gyda'r adroddiad cyn-bwyllgor hwn a chytunodd y gallai'r gweithgaredd caffael arfaethedig ddechrau.

Cam gweithredu 02: AS i ddsbarthu crynodeb o'r holl sylwadau a dderbyniwyd gan aelodau'r Bwrdd am yr adroddiadau cyn-bwyllgor uchod, i gynnwys ymatebion a chmau gweithredu'r swyddogion hefyd.

Crynodeb

i. Nododd y Bwrdd yr holl sylwadau a wnaed mewn perthynas ag Adroddiad Blyneddol Cynllun y Gymraeg 2019-20 a chytunwyd i gadarnhau adroddiad y cyn-bwyllgor hwn.

ii. Nododd y Bwrdd yr holl sylwadau mewn perthynas ag Adroddiad Ansawdd Blyneddol 2019-20 a chytunwyd i gadarnhau'r adroddiad cyn-bwyllgor hwn.

iii. Nododd y Bwrdd yr holl sylwadau mewn perthynas â'r Contractau uwchben Trothwy'r UE a chytunwyd i gadarnhau adroddiad y cyn-bwyllgor hwn.

8. Diweddariad y Cadeirydd

8.1 Diolchodd DBJ i aelodau'r Bwrdd am eu cyfraniadau ac am fod mor agored yn rhan gyntaf y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mai. Anogodd DBJ aelodau'r Bwrdd i gysylltu ag ef yn uniongyrchol pe byddent yn dymuno trafod unrhyw faterion, ac annog yr aelodau i ddod ag unrhyw feysydd trafod i sylw'r Bwrdd.

8.2 Adolygodd y Bwrdd y trafodaethau yng nghyfarfod 13 Mai mewn perthynas â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

8.3 Cadarnhaodd DBJ y byddai'r holl benderfyniadau pellach yn ymwneud â chyfres yr haf yn cael eu gwneud yn y Bwrdd llawn ac y gellid newid Cylch Gorchwyl y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddileu'r cymal sy'n ymwneud â chyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo. Byddai telerau diwygiedig yn cael eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. Nodwyd y byddai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn parhau i gwrdd yn ôl yr angen ac yn adrodd i'r Bwrdd.

8.4 Trafododd y Bwrdd y defnydd o'r swyddogaeth Sgwrsio yn MS Teams mewn perthynas â chyfarfodydd y bwrdd ac is-drafodaethau sy'n digwydd. Gofynnodd y Bwrdd a ellid dileu recordiadau a'r swyddogaeth sgwrsio ar ôl i'r cofnodion gael eu cymeradwyo.

Cytunodd AS i adolygu hyn a dosbarthu canllawiau pellach mewn perthynas â chyfarfodydd ar-lein.

- 8.5 Trafododd DBJ y papurau gwybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â'r continwmm Cymraeg a'r trafodaethau diweddar mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd.
- 8.6 Nododd IN y gwaith rhagorol sy'n digwydd yn y sefydliad a gofynnodd am ymchwil yn y maes hwn, mewn perthynas â hyfedredd o ran continwmm iaith a'r fframwaith Ewropeaidd cyffredin mewn perthynas ag ieithoedd.
- 8.7 Amlinellodd PB rai o'r ystyriaethau cyd-destunol ehangach gyda Llywodraeth Cymru ac atgoffodd y Bwrdd am y gwaith ymchwil a oedd eisoes wedi'i wneud yn edrych ar genhedloedd dwyieithog eraill.
- 8.8 Rhoddodd EG drosolwg byr i'r Bwrdd o lefel yr ymgysylltu allanol y mae Cymwysterau Cymru yn ei wneud mewn amrywiol fforymau ynghylch y Gymraeg ac ieithoedd tramor modern.
- 8.9 Nododd y Bwrdd fod swyddogion yn ymwneud â grŵp Dyfodol Byd-eang Llywodraeth Cymru a oedd yn cynnwys nifer o randdeiliaid gan gynnwys athrawon iaith. Roedd y grŵp hwn yn edrych ar ieithoedd a sut maen nhw'n cael eu hyrwyddo.
- 8.10 O ystyried pwysigrwydd y drafodaeth am gymwysterau a'r Gymraeg, cytunodd y Bwrdd i gynnal trafodaeth fwy sylweddol am y maes hwn mewn cyfarfod yn y dyfodol.
- 8.11 Nododd y Bwrdd fod sgysiau anffurfiol un i un wedi digwydd rhwng y Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd. Rhannwyd crynodeb o themâu cyffredin o'r cyfarfodydd hyn ag aelodau'r Bwrdd.
- 8.12 Nodwyd y byddai adolygiadau aelodau unigol y Bwrdd yn cael eu trefnu.

Cam gweithredu 03: Cytunodd AS i ddosbarthu canllawiau pellach mewn perthynas â chyfarfodydd ar-lein.

Crynodeb

- i. Nododd y Bwrdd adroddiad y Cadeirydd.
- ii. Cytunodd y Bwrdd i ychwanegu trafodaeth fwy sylweddol ar ystyriaethau yn ymwneud â'r Gymraeg yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd mewn cyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol.
- iii. Nodwyd y byddai adolygiadau aelodau unigol o'r Bwrdd yn cael eu trefnu maes o law.

9. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

- 9.1 Rhoddodd PB ddiweddariad am les y staff a'r trefniadau ynghylch gweithio gartref a roddwyd ar waith mewn perthynas â COVID-19 ar ôl cau'r swyddfa.
- 9.2 Nododd y Bwrdd yr adroddwyd am un achos, oedd heb ei gadarnhau, o'r feirws COVID-19 ymhlith aelodau'r staff. Roedd yr aelod staff wedi gwella. Nodwyd ymhellach fod gweithio o'r cartref yn mynd yn dda iawn, gyda staff yn ffynnu gyda'r ffordd newydd hon o weithio.
- Nododd y Bwrdd fod yr holl baratoadau technegol a roddwyd ar waith cyn symud at weithio o'r cartref wedi rhoi cefnogaeth ragorol i staff fynd â'u gwaith i ffwrdd o'r swyddfa.
- 9.3 Roedd y Bwrdd wedi cymeradwyo Cynllun Gweithredol 2020-21 ym mis Mawrth ar ôl iddo gael ei adolygu gan y Pwyllgor Adnoddau. Roedd gwaith ar y gweill bellach i adolygu'r Cynllun Gweithredol i adlewyrchu newidiadau yr oedd angen eu gwneud o ganlyniad i'r pandemig COVID-19 naill ai mewn perthynas â meysydd gwaith na fyddant efallai'n mynd yn eu blaenau neu a allai gael eu hatal dros dro. Nodwyd bod yr adolygiad Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch, Hamdden ac Arlwyio arfaethedig yn faes a amlygwyd lle na fyddai o bosibl yn briodol cynnal yr adolygiad ar hyn o bryd.
- 9.4 Nododd y Bwrdd y byddai angen adolygu dyddiadau targed yn rheolaidd eleni. Nodwyd ymhellach y byddai'n debygol y byddai gostyngiad mewn gwariant lle nad oedd rhai gweithgareddau bellach yn bosibl. Cadarnhaodd AS mai pwrpas yr adolygiad o adrodd ar y Cynllun Gweithredol oedd sicrhau bod monitro effeithiol ar waith i adlewyrchu natur ddeinamig y sefyllfa bresennol.
- 9.5 Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Adnoddau yn derbyn y diweddariad manwl mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredol, gyda diweddariadau cyffredinol yn cael eu darparu i'r Bwrdd yn ogystal â gwybodaeth yn ymwneud â gostyngiadau yn y gwariant a ragfynegyd.
- 9.6 Cododd y Bwrdd nifer o bwytiau mewn perthynas â'r trefniadau gweithio gartref cyfredol, trefniadau yn y dyfodol a newidiadau a allai fod yn ofynnol i'r swyddfa i sicrhau y cedwir at fesurau pellhau cymdeithasol. Codwyd pwyntiau ychwanegol mewn perthynas â lles staff sy'n gweithio o'u cartrefi.
- 9.7 Cadarnhaodd PB fod gweithgor wedi'i sefydlu i edrych ar fesurau ar gyfer ailagor y swyddfa. Nodwyd, er mwyn cwrdd â mesurau pellhau cymdeithasol, y byddai capasiti'r swyddfa yn cael ei leihau gryn dipyn. Nodwyd ymhellach bod angen rhesymeg glir i staff ddychwelyd i'r swyddfa, a bod angen ystyried ffactorau eraill fel ysgolion yn parhau ar gau a'r problemau oedd yn dilyn o ran gofal plant hefyd.
- 9.8 Rhoddodd PB ddiweddariad ar ddiwygio'r CG/VQ. Nododd y Bwrdd fod y gwaith yn parhau heb unrhyw rwystr ar y cwrs Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig.

Nodwyd bod y pwnc TGAU eisoes wedi'i gymeradwyo i'w addysgu ym mis Medi 2021. Roedd y sefydliad yn falch bod hyn wedi'i gyflawni ymhell cyn i'r pwnc cael ei gyflwyno am y tro cyntaf. Roedd cymeradwyo'r cymhwyster Safon Uwch ar y trywydd iawn i'w addysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2022. Mae cwrs y lefel Sylfaen wedi cael ei gyflwyno i'w ystyried ac mae gweithgareddau ymgysylltu yn dod yn eu blaenau yn dda.

- 9.9 Nododd y Bwrdd fod y meini prawf cymeradwyo ar gyfer y TGAU Technoleg Ddigidol wedi'u cyhoeddi.
- 9.10 Cymeradwywyd pob un o'r cymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol. Yn dilyn cais gan golegau i ohirio'r cymwysterau lefel 3 a gynlluniwyd ar gyfer eu haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi, ystyriwyd dadansoddiad manwl o'r opsiynau, a derbyniwyd safbwyntiau gan randdeiliaid. Nododd y Bwrdd fod y sefydliad wedi penderfynu caniatáu i'r cymhwyster etifeddol redeg ochr yn ochr â chymhwyster Diploma'r Dystysgrif lechyd a Gofal Cymdeithasol lefel 3 newydd, ond y dylid bwrw ymlaen â'r cymwysterau lefel 3 newydd eraill. Roedd colegau'n cael eu hannog yn gryf i ddarparu'r cymhwyster newydd.
- 9.11 Nododd y Bwrdd yr aflonyddwch posibl i flwyddyn academiaidd 2020-21. Roedd senarios ac opsiynau'n cael eu hystyried a byddai hyn yn cael ei drafod gyda'r Pwyllgor Rheoleiddio ar 18 Mehefin.
- 9.12 Rhoddodd PB wybodaeth i'r Bwrdd ynghylch nodi cyllid na fyddai ei angen mwyach oherwydd y newid mewn blaenoriaethau gweithredol a achoswyd gan sefyllfa COVID-19. Roedd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu â Llywodraeth Cymru trwy'r broses ragfynegi reolaidd. Byddai darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer costau posibl a fyddai'n gysylltiedig ag unrhyw adolygiad barnwrol posibl o'r penderfyniadau a wneir ar gyfer cyfres haf 2020.
- 9.13 Trafododd y Bwrdd ail sbigyn posib yn y feirws COVID-19. Cadarnhaodd PB fod hyn yn parhau i gael ei adolygu'n barhaus gyda senarios yn cael eu cynllunio.

Crynodeb

- i. Nododd y Bwrdd y diweddariad ar les staff a gweithio o bell ar draws y sefydliad.
- ii. Nododd y Bwrdd y dull diwygiedig o adrodd ar y Cynllun Gweithredol, a chytunwyd y byddai gwybodaeth fanwl yn cael ei darparu i'r Pwyllgor Adnoddau, gyda diweddariadau cyffredinol am y Cynllun Gweithredol a diweddariadau cyllid cysylltiedig yn cael eu darparu i'r Bwrdd.
- iii. Nododd y Bwrdd ddiweddariad ar y gwaith ar y CG/VQ sy'n cael ei wneud.
- iv. Nododd y Bwrdd y trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar effaith COVID-19 ar y gwariant a ragfynegwyd.

v. Nododd y Bwrdd y cynllunio sy'n cael ei wneud i baratoi ar gyfer effaith bosibl pandemig COVID-19 ar flwyddyn academiaidd 2020-21.

10. Adolygiad o'r Sector Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch (EAMS)

- 10.1 Derbyniwyd cyflwyniad gan GD am Adolygiad EAMS. Nodwyd y pwyntiau canlynol:
- 10.2 Ymgysylltwyd â dysgwyr a rhanddeiliaid gyda 54 o gyflogwyr, 11 coleg, 7 darparwr dysgu yn y gwaith a 362 o ddysgwyr, a gwnaed adolygiad technegol a chymhariaeth ryngwladol.
- 10.3 Roedd gan y sector gysylltiadau arbennig o gryf rhwng cyflogwyr a darparwyr dysgu, roedd prentisiaethau yn y sector yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, a chafwyd cefnogaeth dda iawn gan rai cyrff dyfarnu. Nodwyd hefyd bod rhai enghreifftiau da iawn o arfer rhagorol ar draws y sector.
- 10.4 Darparwyd trosolwg o'r ystod o gymwysterau sydd ar gael gan GD, ynghyd â gwybodaeth yn ymwneud â'r ddarpariaeth gyfredol a rhai pryderon ar draws y sector trwy'r adolygiad. Nid oedd cynnwys rhai cymwysterau bob amser yn cael ei ddiweddarau nac yn berthnasol i'r diwydiannau y maent yn eu gwasanaethu. Yn ogystal, nodwyd rhai pryderon ynghylch pa mor hawdd i'w reoli oedd y gwaith asesu.
- 10.5 Roedd yr adolygiad hefyd wedi codi rhai heriau systemig o ran codi ymwybyddiaeth ynghylch peirianeg a phrentisiaethau. Nodwyd bod recriwtio staff addysgu yn broblem a bod addysgu'r sector hwn mewn ysgolion yn aml yn cael ei wneud gydag adnoddau cyfyngedig. Roedd ystyriaethau eraill yn yr adolygiad mewn perthynas â sut y gallai newidiadau polisi yn Lloegr beri risg i argaeledd cymwysterau yng Nghymru yn y dyfodol; gyda'r risgiau mwyaf mewn meysydd mwy arbenigol.
- 10.6 Cyflwynodd GD dri opsiwn posib yn amrywio o'r ymyrraeth leiaf i ddiwygiad llawn o'r holl gymwysterau a wneir ar raglenni Addysg Bellach llawn amser, ysgolion a phrentisiaethau.
- 10.7 Nododd y Bwrdd mai'r argymhelliad oedd bwrw ymlaen ag opsiwn i cryfhau'r cymwysterau cyfredol, wrth ymdrin â diffygion trwy ystod o gamau cynyddrannol o fewn yr ystod gyfredol o gymwysterau sydd ar gael. Nododd y Bwrdd bwysigrwydd sicrhau bod cymwysterau'n diwallu anghenion y sector diwydiant hwn yn y dyfodol wrth iddo ddatblygu.
- 10.8 Nododd y Bwrdd mai'r cam nesaf a gynlluniwyd oedd parhau i drafod a phrofi opsiynau gyda rhanddeiliaid, gyda'r bwriad o gyhoeddi'r adroddiad adolygu ym mis Hydref 2020.

- 10.9 Ystyriodd y Bwrdd effaith COVID-19 cyfredol a Brexit ar y sector hwn. Nodwyd bod y sector diwydiant yn bwysig i economi Cymru. Diolchodd y Bwrdd i GD am y cyflwyniad a'i waith ar yr adolygiad.

Crynodeb

i. Cafodd y Bwrdd gyflwyniad ar y gwaith a wnaed ar adolygiad EAMS, gan gynnwys camau a gynlluniwyd a dywedwyd y dylai adroddiad ar adolygiad o'r sector gael ei gyhoeddi yn hydref 2020.

11. Tystysgrif Her Sgiliau

- 11.1 Cyflwynodd JJ adroddiad ar y Dystysgrif Her Sgiliau (SCC). Nododd y Bwrdd fod cais yn cael ei wneud i ofyn am gymeradwyaeth i gynnal ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau Uwch diwygiedig ac ar y dull arfaethedig o sicrhau corff dyfarnu trwy ddefnyddio cyfyngu a chomisiynu. Gofynnodd JJ hefyd am gymeradwyaeth i ychwanegu'r cymhwyster at adran 'Bwriad i Gyfyngu' y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaeth o fis Chwefror 2021.
- 11.2 Rhoddodd EG gyflwyniad byr i gefndir gwaith prosiect y Dystysgrif Her Sgiliau, ac amlinellodd y penderfyniadau yr oedd y Bwrdd yn gofyn amdanynt.
- 11.3 Amlinellodd JJ i'r Bwrdd fod y newidiadau arfaethedig yn cadw llawer o agweddau cadarnhaol y cymhwyster cyfredol, megis nifer yr oriau dysgu dan arweiniad, y strwythur graddio cyffredinol, y prosiect unigol a'i bwysoli, ac asesu heb fod trwy arholiad.
- 11.4 Nododd y Bwrdd y newidiadau arfaethedig fel a ganlyn:

Rhoi'r gorau i fframwaith trosfwaol Bagloriaeth Cymru yn bennaf er mwyn lleihau'r cymhlethdod a thrwy hynny gynorthwyo cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth, a ystyriwyd yn heriol yn y gorffennol, ac osgoi'r angen i gydrynhoi data canlyniadau.

Lleihau nifer y cydrannau o bedwar i dri gan gyfuno Her Dinasyddiaeth Fyd-eang a Her Gymunedol, i wneud hon yn gydran fwy hylaw.

Lleihau nifer yr oriau ar gyfer cyfranogiad cymunedol o 30 i 15 er hwylustod, a oedd yn faes allweddol a godwyd yn yr adolygiad

Argymhell gostyng nifer y sgiliau sy'n cael eu hasesu yn benodol fel rhan o'r cymhwyster o'r saith sgil cyflogadwyedd hanfodol i'r pedwar sgil cyfannol yn y cwricwlwm newydd

Roedd ystyriaeth ofalus wedi'i rhoi i'r adolygiadau ac adborth rhanddeiliaid. Ymdriniwyd â'r prif faterion a godwyd, ac roedd asesiad effaith integredig manwl wedi'i gwblhau lle roedd y buddion a'r anfanteision wedi'u hystyried ar gyfer ystod o opsiynau.

Wrth wneud hynny, cadarnhaodd JJ i'r Bwrdd fod cyfiawnhad dros y cynigion sy'n cael eu cyflwyno o ran mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd ac o ran cyflawni nod corfforaethol y sefydliad o ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru a sicrhau hyder y cyhoedd.

Cadarnhaodd JJ ymhellach fod sylw dyledus wedi'i roi i Wyth Mater y Ddeddf, yr effaith ar y Gymraeg a'r nodweddion gwarchoddedig yn y Ddeddf Cydraddoldeb.

- 11.5 Trafododd y Bwrdd ymgysylltiad y sector Addysg Uwch â'r cynigion. Dywedodd HB wrth y Bwrdd fod ymgysylltiad strategol â phrifysgolion, gan gynnwys Prifysgol Rhydychen, wedi bod yn gadarnhaol. Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i sicrhau nad oedd y newidiadau arfaethedig yn tynnu oddi ar ansawdd y cymhwyster. Nodwyd bod y cynigion yn cadw'r prosiect unigol, sy'n uchel ei barch ac yn cael ei werthfawrogi gan Addysg Uwch (AU). Nododd y Bwrdd hefyd fod AU yn ystyried bod y Dystysgrif Her Sgiliau yn cynnig rhywbeth yn ychwanegol at Gymhwyster y Prosiect Estynedig a'u bod yn dod yn llawer mwy ymwybodol o'r cydrannau eraill fel manteision i ddysgwyr, gan ddarparu profiad mwy cyfannol.
- 11.6 Nododd y Bwrdd y bwriedir dechrau ar ymgynghoriad cyhoeddus ar 7 Medi 2020, y bwriedir iddo barhau am 10 wythnos tan 13 Tachwedd 2020. Roedd effaith COVID-19 ar athrawon wedi'i ystyried ynghyd ag opsiynau o ddechrau'r ymgynghoriad yn gynharach neu'n hwyrach fel nad oedd yn cyd-fynd â dechrau'r flwyddyn academiaidd newydd. Mynegodd y Bwrdd rywfaint o bryder ynghylch ymgysylltu â rhanddeiliaid ond nododd mai hwn oedd y cyfle gorau ac y byddai unrhyw oedi yn effeithio ar sicrhau bod y cwrs ar gael ar gyfer ei addysgu am y tro cyntaf. Awgrymodd y Bwrdd y dylid bwrw ymlaen â'r cynllun ond y dylid ei adolygu os oedd y lefelau ymateb yn isel.
- 11.7 Nodwyd y bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal trwy brif fersiwn ar-lein addas i ieuencid ac y byddai'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn llofnodi'r ddogfen ymgynghori.
- 11.8 Trafododd y Bwrdd gynnig/ mabwysiadu'r cymhwyster hwn yn gyffredinol. Nodwyd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi arweiniad clir ynghylch hyn. Nododd y Bwrdd hefyd er nad oedd un corff yn gyfrifol am oruchwylio nifer a chynnwys yr ymgynghoriadau addysg yng Nghymru, fod yna gysylltiadau cyfathrebu yn bodoli ar draws Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill.
- 11.9 Wrth drafod y llwybr at sicrhau corff dyfarnu a'r cynnig i ddefnyddio cyfyngu a chomisiynu, nododd y Bwrdd fod y Bwrdd Diwygio mewnol wedi cymeradwyo'r dull hwn i'w argymhell ym mis Ionawr 2020. Rhoddwyd gwybodaeth am y tri dull posibl i'r Bwrdd: dan arweiniad y farchnad (dull cyfredol), cyfyngiad trwy ddethol nad oedd wedi'i ddefnyddio eto gan y sefydliad, a chyfyngu trwy gomisiynu. Hysbysodd JJ y Bwrdd fod buddion y llwybr arfaethedig yn gorbwysu'r risgiau yn ogystal â darparu ysgogiadau cytundebol yn ychwanegol at yr ysgogiadau rheoleiddio presennol.

Ystyriodd y Bwrdd yr opsiynau a gyflwynwyd a gofynnodd yr aelodau nifer o gwestiynau cyn cytuno â'r cynnig i gyfyngu a chomisiynu. Diolchodd y Bwrdd i EG, JJ a HB am yr adroddiad a'u gwaith yn y maes hwn.

Crynodeb

- i. Derbyniodd ac ystyriodd y Bwrdd yr adroddiad ar y Dystysgrif Her Sgiliau.
- ii. Cymeradwyodd y Bwrdd y cais i fwrw ymlaen ag ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau Uwch diwygiedig
- iii. Cytunodd y Bwrdd y byddai'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn llofnodi'r ddogfen ymgynghori.
- iv. Cymeradwyodd y Bwrdd y dull arfaethedig o sicrhau corff dyfarnu ar gyfer cymhwyster y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch (cyfyngu - comisiynu)
- v. Cymeradwyodd y Bwrdd y cynnig i ychwanegu'r cymhwyster at adran 'Bwriad i Gyfyngu' y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaeth o fis Chwefror 2021.

12. Adroddiad Cyllid

- 12.1 Cyflwynodd Kerry Price, Pennaeth Cyllid, yr Adroddiad Cyllid. Nododd y Bwrdd fod yr adroddiad yn cyflwyno sefyllfa alldro cyfrifon 2019-20 a diweddariad mewn perthynas â Chwarter 1 blwyddyn gyllideb 2020-21, gan ystyried adolygiad dechreuol Cynllun Gweithredol 2020-21 a'r cyllidebau cysylltiedig.
- 12.2 Nododd y Bwrdd fod yr alldro ar gyfer blwyddyn 2019-20 yn fras o fewn yr ystod a adroddwyd yn flaenorol i'r Bwrdd - adroddwyd mai cyfanswm y gwariant, gan gynnwys gweithgareddau Diwygio'r Cwricwlwm oedd £8.315m.
- 12.3 Nododd y Bwrdd ymhellach, yn unol â'n hymrwymiad i Lywodraeth Cymru, ein bod wedi parhau i ddefnyddio £125k o'n cronfa wrth gefn y gellir ei defnyddio, sy'n golygu mai'r gwariant yn erbyn ein cyllid craidd (£8.067m) oedd £8.0m.
- 12.4 Cadarnhaodd KP nad oedd gweithgareddau ar adroddiadau'r cwricwlwm wedi golygu bod angen unrhyw gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru gan fod 'llithriad' mewn meysydd eraill wedi'i ddefnyddio ar gyfer y gweithgaredd hwn yn ystod blwyddyn gyllideb 2019-20.
- 12.5 Cadarnhaodd KP ein bod, fel yr adroddwyd ym mis Mawrth, wedi cael defnyddio'r rhan fwyaf o'r incwm a gynhyrchwyd yn ystod 2019-20 i ychwanegu at ein cronfa wrth gefn y gellir ei defnyddio. Nododd y Bwrdd y byddai ARAC yn adolygu'r cyfrifon drafft yn fanwl.

- 12.6 Rhoddodd KP ddiweddariad ar Chwarter 1 o gyllideb 2020-21. Nododd y Bwrdd fod y bwllch cyllido o £87k rhwng cyfanswm y cyllid sydd ar gael o £9.288m, a'r amcangyfrif o gyfanswm y cyllid sy'n ofynnol o £9.375m, i'w briodoli i'r ddarpariaeth a wnaed yn y gyllideb i dalu am unrhyw ddyfarniad cyflog yn 2020-21. Nododd y Bwrdd fod Llywodraeth Cymru wedi cael rhybudd y gallai y byddai angen cyllid ychwanegol pe bai dyfarniad cyflog yn cael ei gymeradwyo, gydag ymrwymiad i ailasesu'r sefyllfa ariannu unwaith y byddai'r dyfarniad cyflog yn hysbys.
- 12.7 Nododd y Bwrdd fod swyddogion, yn ystod Ebrill 2020, wedi adolygu Cynllun Gweithredol a chyllideb 2020-21 i asesu effaith yr amgylchiadau cyfredol sy'n ymwneud â COVID-19 ar ymrwymadau ariannol a gwariant sy'n cael ei gynllunio.
- 12.8 Yn unol â'r adroddiad a gafodd y Bwrdd ar ddiwygio'r Cynllun Gweithredol, nodwyd bod proffiliau gwariant ariannol cysylltiedig wedi'u lleihau. Byddai meysydd gwariant eraill yn parhau i gael eu hadolygu bob hyn a hyn dros y misoedd nesaf.
- 12.9 Trafododd y Bwrdd yr ymagwedd at Lywodraeth Cymru mewn perthynas â rhagweld tanwariant a chydabu'r angen i nodi unrhyw feysydd lle gallai pandemig COVID-19 arwain at fod angen cyllid ychwanegol. Cadarnhaodd KP fod rhywfaint o ddarpariaeth eisoes wedi'i gwneud. Cytunwyd y byddai KP yn rhannu'r sefyllfa gyda Llywodraeth Cymru ac yn trafod yr ansicrwydd.

Diolchodd y Bwrdd i KP a'r tîm Cyllid am yr adroddiad ac am eu gwaith.

Crynodeb

- i. Nododd y Bwrdd sefyllfa alldro ariannol 2019-20
- ii. Nododd y Bwrdd ganlyniad adolygiad cyllideb 2020-21
- iii. Nododd y Bwrdd y tanwariant a ragwelwyd o ganlyniad i adolygu Cynllun Gweithredol 2020-21 a'r meysydd cyllideb cysylltiedig

13. Rheoli Risg

- 13.1 Cyflwynodd AS yr adroddiad rheoli risg. Nododd y Bwrdd fod y wybodaeth wedi'i chyflwyno mewn tair adran - risgiau corfforaethol, risgiau rheoliadol ac ychwanegu cofrestr risg benodol ar gyfer COVID-19.
- 13.2 Nododd y Bwrdd fod gan nifer o'r risgiau corfforaethol a rheoliadol sgôr weddilliol uwch oherwydd goblygiadau COVID-19.
- 13.3 Nododd y Bwrdd nad oedd unrhyw risgiau wedi'u lleihau, a bod y risg oedd yn gysylltiedig â Brexit yn ymwneud â symud data i'r DU wedi'i dynnu o'r gofrestr gorfforaethol.

- 13.4 Gofynnodd y Bwrdd gwestiynau am y risgiau sy'n gysylltiedig â phroses apelio haf 2020, ffioedd a godir gan gyrff dyfarnu am apeliadau, a'r risgiau cyffredinol na fydd cyrff dyfarnu yn gallu darparu'r canlyniadau disgwylidig / cytunedig eleni. Cytunodd JR i adolygu'r risgiau hyn a sicrhau bod y gofrestr yn adlewyrchu'r pryderon a godwyd.
- 13.5 Hysbysodd PB y Bwrdd, o ystyried y cyfnod hwn o newid ac ansicrwydd, y bydd y cofrestrau risg corfforaethol a rheoliadol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Cadarnhaodd PB fod croeso mawr i fewnbwn aelodau'r Bwrdd tuag at y maes hwn.

Diolchodd y Bwrdd i AS a'i thîm am eu gwaith ynghylch y gofrestr risg

Cam gweithredu 04: JR i ail-werthuso sawl risg fel y trafodwyd gan y Bwrdd.

Crynodeb

- i. Nododd y Bwrdd y cofrestrau risg corfforaethol, rheoliadol a COVID-19.
- ii. Nododd y Bwrdd y wybodaeth a ychwanegwyd a'r newidiadau a wnaed i'r sgorau gweddilliol uwch, a bod un risg wedi'i thynnu o'r gofrestr.

14. Unrhyw fater arall

Nid oedd unrhyw fater ychwanegol i'w adrodd. Diolchodd y Cadeirydd i'r holl aelodau a swyddogion am eu hamser a'u cyfraniadau dros gyfarfod deuddydd y Bwrdd.

15. Papurau i'w Nodi

Nododd y Bwrdd y papurau a ganlyn:

- 15.1 Y Bwrdd yn Edrych Ymlaen
- 15.2 Cynllun Gweithredol 2019-20 - hyd ddiwedd Mawrth 2020
- 15.3 Briffiad y Bwrdd Cyfathrebu
- 15.4 Cododd IN bwynt mewn perthynas â'r cyfathrebu ar gyfer arholiadau haf mewn perthynas â thynnu sylw at y ffaith ein bod yn gweithio gydag ysgolion a cholegau. Mewn perthynas â phwynt pellach a godwyd ynglŷn â'r sefyllfa sy'n cael ei chyfleu yn Lloegr mewn perthynas â dysgwyr Blwyddyn 10 a 12 yn dychwelyd i'w man dysgu, cadarnhaodd PB fod y sefyllfa yng Nghymru yn dal yn aneglur.

Cytunwyd y byddai'r cyfathrebu ag ysgolion a cholegau yn cael ei ychwanegu at y briffio.

- 15.5. Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyfres Arholiadau 2020: cofnodion cymeradwy 8 Ebrill, 16 Ebrill, 22 Ebrill, 29 Ebrill a chofnodion drafft 6 Mai 2020.
- 15.6. Cofnodion Drafft y Pwyllgor Adnoddau - 17 Mawrth 2020

Daeth y cyfarfod i ben am 13.15.

Diwedd